

Adroddiad ar Ymgynghoriad Rhan Un y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd

28 Mawrth 2025

Y cefndir

- Cyhoeddwyd yr Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd: Ymgynghoriad Rhan Un¹ ar 25 Hydref a daeth i ben ar 6 Rhagfyr 2024. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion polisi ynghylch llety dros nos i'r Aelodau, costau swyddfeydd etholaethol ac ymgysylltu, a chymorth i grwpiau gwleidyddol.
- Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar i'r grwpiau a'r unigolion hynny a roddodd o'u hamser i gyflwyno ymatebion manwl a gwybodus i ymgynghoriad Rhan Un. Mae rhestr o'r rhai a ymatebodd yn Atodiad 1.
- Ar ôl trafod yr adborth i'r ymgynghoriad, mae'n fwriad gan y Bwrdd fwrw ymlaen â'r mwyafrif o'i gynigion gwreiddiol, yn amodol ar benderfyniadau terfynol yn nhymor yr haf yn dilyn ei ymgynghoriad Rhan Dau.
- Bydd ymgynghoriad Rhan Dau ar gynigion ar gyfer cyflogau a chymorth personol i'r Aelodau, cymorth staffio a rhai materion pellach yn ymwneud â chymorth swyddfeydd etholaethol ac ymgysylltu ar gyfer y Seithfed Senedd yn cael ei gyhoeddi ddechrau mis Ebrill.
- Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r adborth i'r ymgynghoriad ac ystyriaethau'r Bwrdd ar bob un o'r cynigion.

¹ <https://busnes.senedd.cymru/documents/s154677/Ymgynghoriad%20Rhan%20Un.pdf>

Llety dros nos

Cynnig Un:

Cyflwyno model dwy ardal yn lle'r model tair ardal presennol ar gyfer pennu cymhwysedd ar gyfer llety dros nos, sy'n cynnwys ardal Fewnol ac Allanol yn unig.

Y cefndir

6. Ar hyn o bryd gall yr Aelodau hawlio 'gwariant llety preswyl' i ad-dalu costau sy'n gysylltiedig â llety dros nos yn ardal Caerdydd pan fyddant yn aros oddi cartref ar fusnes seneddol. Mae'r hawl hon yn seiliedig ar bellter eu prif breswylfa o Fae Caerdydd. Mae'r pellter o Fae Caerdydd wedi'i rannu'n Ardaloedd Mewnol, Canolradd ac Allanol, fel y'u diffinnir yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau.

7. Cyfrifir y swm y gall Aelodau ei hawlio yn ôl pa mor bell y maent yn byw o Gaerdydd, hynny yw:

- Mae gan yr Aelodau sy'n byw mewn etholaethau sydd bellaf o Fae Caerdydd ('Aelodau'r Ardal Allanol') hawl i gael eu had-dalu am gostau llety rhent neu lety gwesty hyd at uchafswm o £12,900 y flwyddyn yn 2025-26, yn ogystal ag argostau;
- Mae gan y rhai sy'n byw yn yr 'Ardal Ganolradd' (Aelodau'r Ardal Ganolradd) hawl i ad-daliad ar lefel is, sy'n cyfateb i 72 noson mewn gwesty am gost o £117 yn 2025-26; a
- Gall y rhai sy'n byw yn yr 'Ardal Fewnol' (Aelodau'r Ardal Fewnol) wneud cais am ad-daliad am lety dros nos mewn achosion eithriadol yn unig.

8. Fodd bynnag, yn y Seithfed Senedd, bydd Aelodau'n cynrychioli etholaethau newydd nad ydynt yn rhannu'r un ffiniau â'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd i bennu cymhwysedd ar gyfer llety dros nos, sy'n golygu bod angen diweddarau'r sail ar gyfer ad-dalu Aelodau.

9. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi'r cymhwysedd ar gyfer llety dros nos, yn seiliedig ar fap o etholaethau newydd y Seithfed Senedd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau ar gyfer ymgynghori.²

² <https://www.cdffc.llyw.cymru/aro/09-24/2026-review-initial-proposals>

10. Awgrymodd y Bwrdd y dylid uno'r Ardal Ganolradd bresennol â'r Ardal Allanol er mwyn sicrhau y byddai'r Aelodau ag amseroedd teithio hir yn gallu hawlio am lety dros nos. Hefyd, cynigiodd y Bwrdd fodel dwy ardal, yn seiliedig ar Ardal Fewnol ac Ardal Allanol, i hyrwyddo amcan y Bwrdd o symleiddio'r drefn, gan ddadlau y byddai'n haws deall a gweinyddu hyn.

Crynodeb o'r ymatebion

11. Roedd pob un o'r grwpiau gwleidyddol yn cytuno y dylid cyflwyno model dwy ardal, ag ardaloedd Mewnol ac Allanol yn unig, yn lle'r model presennol, sy'n seiliedig ar dair ardal - Mewnol, Allanol a Chanolradd.

12. Dywedodd grŵp Llafur Cymru ei fod yn teimlo bod hynny'n debygol o arwain at lai o anghysondebau ac y bydd yn symlach i'r Aelodau a'r rhai sy'n gweithredu'r system.

13. Roedd grŵp Plaid Cymru yn cytuno â'r cynnig ond dywedodd ei fod yn pryderu y bydd yr Aelodau ar gyrion pellaf yr Ardal Fewnol yn dal i wynebu amseroedd cymudo hir ac y dylai fod peth darpariaeth iddynt allu aros mewn gwestai yn ystod yr wythnos.

Trafod yr ymatebion

14. Nododd y Bwrdd yr ymatebion cadarnhaol i'r cynnig i gael dwy ardal yn hytrach na thair i bennu cymhwysedd ar gyfer llety dros nos. Nododd y Bwrdd hefyd y pryder a fynegwyd gan grŵp Plaid Cymru am yr Aelodau sy'n byw ar gyrion allanol yr Ardal Fewnol, a bod y Penderfyniad yn dweud, *'Mewn achosion ar y ffin, caiff Aelod wneud cais i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau i'w brif gartref gael ei drin fel pe bai wedi'i leoli mewn ardal wahanol os bydd yr Aelod yn credu bod hyn yn rhesymol.'*

15. Mae cynnig terfynol y Bwrdd yn adlewyrchu'r Penderfyniadau terfynol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau ar 11 Mawrth 2025.³

Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd weithredu'r cynnig ar gyfer dwy ardal o ran cymhwysedd ar gyfer llety dros nos ym Mhenderfyniad y Seithfed Senedd: ardaloedd Mewnol ac Allanol yn unig.

³ <https://www.cdffc.llyw.cymru/arolygon/03-25/2026-review-final-decisions>

Bydd yr ardaloedd hyn yn seiliedig ar ffiniau'r etholaethau sydd wedi'u pennu ym Mhenderfyniadau terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Cynnig Dau:

Mae cymhwysedd yr Aelodau ar gyfer llety dros nos yn seiliedig ar un o'r canlynol:

Opsiwn 1: Model ffiniau etholaethol - yn seiliedig ar ddiweddarau'r model presennol i adlewyrchu'r ffiniau etholaethol newydd;

neu Opsiwn 2: Model amser teithio i'r gwaith - yn seiliedig ar amser teithio, nid pellter y brif breswylfa o adeilad y Senedd

Y cefndir

16. Fel y nodwyd uchod, mae'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau wedi ymgynghori ar yr etholaethau terfynol a fydd yn ethol yr Aelodau ar gyfer y Seithfed Senedd, ac mae bellach wedi'u cyhoeddi. Mae'r newid hwn yn golygu nad yw'r Ardaloedd Mewnol, Allanol a Chanolradd a ddefnyddir ar hyn o bryd i bennu cymhwysedd ar gyfer gwariant llety preswyl yn berthnasol mwyach, o ystyried y newidiadau i ffiniau'r etholaethau.

17. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cael adborth bod y system sy'n seiliedig ar etholaethau yn fymrwyl, a bod diffyg hyblygrwydd yn gallu effeithio ar lesiant yr Aelodau.

18. Cynigiodd y Bwrdd ddau opsiwn ar gyfer penderfynu pa Aelodau fydd yn cael hawlio'r costau Ardal Fewnol ac Allanol yn y Seithfed Senedd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr am sylwadau ar fodel yn seiliedig ar ffiniau etholaethol (ar sail y ffiniau etholaethol drafft a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i ymgynghori arnynt yn ystod hydref 2024) a model amser teithio i'r gwaith amgen, yn seiliedig ar amser teithio o 60 munud mewn car.

Crynodeb o'r ymatebion

19. Roedd yr holl ymatebwyr, ar wahân i grŵp Llafur Cymru, o blaid model yn seiliedig ar ffiniau'r etholaethau fel y'u cynigiwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru⁴ ar gyfer y Seithfed Senedd. Y farn gyffredinol oedd bod y model hwn yn fwy eglur a syml i'w ddehongli a'i

⁴ Adolygiad Seneddol 2023 - Argymhellion Terfynol | Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

weinyddu. Er enghraifft, dywedodd Comisiwn y Senedd ei bod yn debygol y bydd yr opsiwn amser teithio:

'... yn creu gofynion beichus er mwyn sicrhau y gellir bodloni gofynion agweddau fel archwilio yn ddigonol. O rai rhannau o Gymru, mae'n bosibl y bydd trafnidiaeth breifat a chyhoeddus yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, a gallai hynny unwaith eto arwain at gyfrifiadau cymhleth o ran cymhwysra ar gyfer costau.'

20. Yn yr un modd, ysgrifennodd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig y byddai'r opsiwn teithio i'r gwaith yn agored i ormod o ddehongli gan yr Aelodau a'r etholwyr, a allai arwain at ddryswch a chyhuddiadau o gamddefnyddio adnoddau'r Senedd.

21. Ysgrifennodd y Swyddog Cyfrifyddu y byddai'r model ffiniau etholaethol *'yn llai beichus o safbwynt gweinyddol a byddai'n rhoi mwy o eglurder i'r cyhoedd'*, a bod y gofynion gweinyddol y mae'r model teithio i'r gwaith yn eu creu yn drech na'r budd a geir. Dywedodd hefyd y gallai'r opsiwn i Aelodau'r Ardal Fewnol aros yn achlysurol yn ardal Caerdydd liniaru effeithiau andwyol y model ffiniau etholaethol.

22. Roedd Comisiwn y Senedd yn dadlau, er y bydd y ddau fodel yn cynyddu gofynion y gyllideb, ei fod yn ffafrio model ffiniau etholaethol gan y byddai'n llawer haws cyllidebu ar ei gyfer.

23. Ysgrifennodd grŵp Llafur Cymru o blaid y model amser teithio i'r gwaith, gan ddweud:

'...[it would be a] sensible solution which offers clarity for Members and addresses the anomalies which arise under the current constituency boundary based approach, including the experience of some Members in the Intermediate Area of having to travel further and for longer from their main residence than some Members based in the Outer Area.'

24. Barn Aelod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru oedd mai'r pellter o gyfeiriad cartref Aelod o'r Senedd yw'r dull mwyaf priodol ar gyfer penderfynu ar gymhwysedd ar gyfer llety dros nos.

Trafod yr ymatebion

25. Trafododd y Bwrdd yr ymatebion a'r ffaith mai dim ond un grŵp gwleidyddol oedd o blaid yr opsiwn teithio i'r gwaith. Roedd cefnogaeth gref i'r opsiwn sy'n seiliedig ar ffiniau etholaethol.


26. Roedd yr holl ymatebwyr eraill o'r farn bod yr opsiwn sy'n seiliedig ar ffiniau etholaethol yn fodel mwy syml ac eglur ar gyfer y Seithfed Senedd. Nododd y Bwrdd y byddai'r opsiwn hwn

hefyd yn gliriach i'r cyhoedd ei ddeall ac y byddai'n llai agored i ddehongliad i'r rhai sy'n ei weithredu. Nododd y Bwrdd hefyd fanteision y model hwn ar gyfer cyllidebu a'r ffaith bod potensial i'r gofynion gweinyddol sy'n cael eu creu gan y model teithio i'r gwaith fod yn drech na'r budd a ddaw yn ei sgil.

27. Yn ogystal, i'r rhai sy'n byw yn rhannau pellaf yr Ardal Fewnol, ceir darpariaeth yn y Penderfyniad i'r Aelodau wneud cais i'r Comisiwn fel bod eu prif breswylfa yn cael ei chyfrif mewn ardal wahanol lle mae hyn yn rhesymol. Mae'r Bwrdd yn nodi'r anawsterau a brofir gan Aelodau'r Ardal Fewnol sy'n wynebu taith anodd i Gaerdydd mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus, ond bydd y newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn eu galluogi i hawlio o gyllideb ar gyfer llety dros nos heb orfod cyflwyno achos busnes ymlaen llaw.

28. Mae Penderfyniad terfynol y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau wedi'i gyhoeddi, ac mae'r Bwrdd yn bwriadu mai'r etholaethau canlynol fydd yn yr ardaloedd Mewnol ac Allanol:

	Aelodau sydd â phrif breswylfa yn yr etholaethau hyn:	Costau a therfynau cymwys
Ardal Allanol	Bangor Conwy Môn Clwyd Fflint Wrecsam Gwynedd Maldwyn Ceredigion Penfro Sir Gaerfyrddin Gŵyr Abertawe Brycheiniog Tawe Nedd	Llety (rhent neu lety dros nos arall y telir amdano), yn ogystal â chostau cysylltiedig, gan gynnwys treth gyngor a chyfleustodau.
Ardal Fewnol	Afan Ogwr Rhondda Pontypridd Cynon Merthyr Blaenau Gwent Caerffili Rhymni Sir Fynwy Torfaen Casnewydd Islwyn Caerdydd Penarth Caerdydd Ffynnon Taf Pen-y-bont Bro Morgannwg	Cyllideb ar gyfer llety dros nos yn seiliedig ar chwe noson ar y gyfradd gwesty.



Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd benderfynu bod cymhwysedd yr Aelodau ar gyfer llety dros nos yn seiliedig ar yr etholaeth lle maent wedi cofrestru eu prif breswylfa.

Cynnig Tri:

Mae pob Aelod sydd â phrif breswylfa yn yr Ardal Fewnol yn cael hyd at 6 noson y flwyddyn mewn llety dros nos yn Ardal Caerdydd

Y cefndir

29. Nid oes gan yr Aelodau sy'n byw yn yr Ardal Fewnol gyllideb i'w galluogi i hawlio cost llety dros nos yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, gallant hawlio'r gost mewn amgylchiadau eithriadol os byddant yn cyflwyno achos ymlaen llaw i Gomisiwn y Senedd.

30. Y rheswm am hyn yw bod adegau pan fydd angen i'r Aelodau hynny aros dros nos yng Nghaerdydd yn hytrach na theithio adref rhwng diwrnodau busnes y Senedd. Er enghraifft, os bydd rhaid gorffen yn hwyr yn dilyn busnes Cyfarfod Llawn y Senedd, os ydynt yn mynychu digwyddiad, neu'n gorfod dechrau'n gynnar y diwrnod canlynol. Mae adegau hefyd pan fydd tywydd yn amharu ar draffig, neu pan fydd digwyddiadau annisgwyl eraill yn golygu nad yw Aelod yn gallu teithio adref.

31. Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r Bwrdd wedi cael adborth yn ystod Adolygiadau Blynyddol o'r Penderfyniad a sesiynau galw heibio gyda'r Aelodau nad ydynt, yn aml, yn cael rhybudd ymlaen llaw os bydd angen aros dros nos yng Nghaerdydd, ac y gall ceisio trefnu i aros dros nos ar fyr rybudd fod yn straen a chymryd llawer o amser.

32. Er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau wneud eu trefniadau eu hunain, o fewn terfyn penodol, cynigiodd y Bwrdd y dylid darparu cyllideb llety dros nos i Aelodau'r Ardal Fewnol sy'n hafal i lety mewn gwesty am chwe noson y flwyddyn yn y Seithfed Senedd. Byddai'r Aelodau hefyd yn parhau i allu cyflwyno achos busnes, mewn amgylchiadau eithriadol, i fynd y tu hwnt i'r terfyn hwn.

Crynodeb o'r ymatebion

33. Roedd yr holl grwpiau gwleidyddol yn cytuno y dylai'r Aelodau yn yr Ardal Fewnol fod â hawl i gyllideb i'w galluogi i aros dros nos yng Nghaerdydd am o leiaf chwe noson. Fodd

bynag, roedd yr holl grwpiau gwleidyddol yn dadlau y dylid cynyddu'r dyraniad. Er enghraifft, roedd grŵp Llafur Cymru yn annog y Bwrdd fel a ganlyn:

'...either significantly increase the proposed limit or allow Members to book accommodation when required by late business, early business or travel disruption on the basis of their personal responsibility and accountability for all claims they submit.'

34. Awgrymodd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig y dylid cynyddu cyfanswm y lwfans ar gyfer nifer y nosweithiau o lety gwesty i 40 noson y flwyddyn.

35. Dywedodd grŵp Plaid Cymru nad oedd hi'n glir pam y cafodd y cynnig ei osod ar chwe noson y flwyddyn. Galwodd am gynnal arolwg o ddefnydd Aelodau o lety dros nos cyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r terfyn. Er enghraifft, dywedodd fod llawer o'i Aelodau'n talu am o leiaf un noson y mis mewn gwesty ar hyn o bryd. Awgrymodd y byddai angen mwy o lety dros nos ar gyfer diwrnodau ychwanegol y Cyfarfod Llawn yn y dyfodol.

36. Ymatebodd y Swyddog Cyfrifyddu:

'Byddai'r cynnig bod pob Aelod sydd â phrif breswylfa yn yr Ardal Fewnol yn cael hyd at 6 noson y flwyddyn mewn llety dros nos yn Ardal Caerdydd, heb fod angen cymeradwyo hynny ymlaen llaw, yn galluogi Aelodau i ymateb i'w hanghenion at ei gilydd.'

Trafod yr ymatebion

37. Nododd y Bwrdd yr ymatebion cadarnhaol i'r cynnig hwn a bod yr ymatebwyr yn nodi y bydd gallu'r Aelodau i hawlio am lety dros nos heb fod angen cyflwyno achos busnes ymlaen llaw yn rhoi mwy o hyblygrwydd a gallu iddynt wneud penderfyniadau. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn dweud y gallai trefniadau busnes y Senedd gael eu hadolygu ac felly eu newid ar gyfer y Seithfed Senedd, gyda'r posibilrwydd o fwy o sesiynau'r Cyfarfod Llawn, ac felly mae'r hyblygrwydd hwn wedi'i groesawu.

38. Fodd bynnag, nododd y Bwrdd y gwahaniaethau barn ynghylch faint o nosweithiau o lety y dylid eu darparu. Er mwyn mesur y galw am lety dros nos gan Aelodau'r Ardal Fewnol, mae'r Bwrdd wedi ymgynghori ar gynnis i Aelodau'r Ardal Fewnol hawlio hyd at chwe noson o lety dros nos yng Nghaerdydd yn yr Adolygiad Blyneddol o'r Penderfyniad ar gyfer 2025-26. Bydd y Bwrdd yn monitro'r niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon o 1 Ebrill 2025, a bydd y wybodaeth a gesglir yn llywio penderfyniadau ar y ddarpariaeth ar gyfer y Seithfed Senedd.

39. 'Peilot' fydd y gyllideb hon ar gyfer llety dros nos Aelodau'r Ardal Fewnol er mwyn mesur y defnydd ohoni, a bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu'r cynigion ar gyfer y Seithfed Senedd.

40. Bydd y Bwrdd yn monitro'r niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon cyn y Seithfed Senedd ac yn defnyddio'r wybodaeth i lywio'r Penderfyniad drafft ar gyfer y Seithfed Senedd.

Canlyniad

Bydd y Bwrdd yn monitro'r defnydd o'r lwfans llety dros nos yn dilyn y ddarpariaeth newydd ar gyfer llety dros nos i Aelodau'r Ardal Fewnol a gyflwynir o 1 Ebrill 2025

Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu

Cynnig Un:

Dileu'r egwyddorion sy'n ymwneud â darpariaeth swyddfeydd a nodir ym Mhennod 6 o'r Penderfyniad

Y cefndir

41. Mae rhaid i'r Aelodau sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr o dan egwyddorion cyffredinol y cymorth ariannol a nodir ar ddechrau'r Penderfyniad. At hynny, rhaid i'r Aelodau geisio sicrhau bod unrhyw wariant yr eir iddo yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr, mai dyna'r opsiwn mwyaf cynaliadwy a rhesymol sydd ar gael, ac nad yw'n cael effaith negyddol ar enw da'r Senedd na'i Haelodau.

42. Mae'r Penderfyniad yn nodi, er mwyn cael cyllid ar gyfer eu swyddfeydd, y dylai'r Aelodau ddilyn sawl egwyddor:

- enw da'r Senedd: dylai pob swyddfa adlewyrchu statws a phwysigrwydd y Senedd fel sefydliad cenedlaethol a bod yn ymwybodol mai'r swyddfa yw wyneb lleol y Senedd;
- diogelwch: dylai pob swyddfa fod yn ddiogel, yn weladwy ac yn hawdd i'r cyhoedd ei chyrraedd;
- hygyrch: dylai swyddfeydd fod yn fannau hygyrch i bawb y mae angen iddynt eu defnyddio;
- agored a chroesawgar: dylai pob swyddfa gael ei staffio gan staff cyflogedig.

43. At hynny, mae'r Aelodau'n ddarostyngedig i ddyletswyddau cydraddoldeb ac iechyd a diogelwch statudol a rhaid iddynt hefyd sicrhau bod eu swyddfeydd yn darparu ar gyfer gofynion diogelwch eu staff a'u hetholwyr.

44. Yn dilyn adborth ac i adlewyrchu'r newid yn ffyrdd o weithio'r Aelodau a chyflwyno etholaethau aml-aelod newydd sy'n fwy o faint, cynigiodd y Bwrdd y dylid dileu'r egwyddorion sy'n ymwneud â swyddfeydd er mwyn rhoi digon o hyblygrwydd a dewis i'r Aelodau o ran sut y maent yn trefnu eu swyddfeydd yn y Seithfed Senedd.

45. Barn y Bwrdd oedd bod yr egwyddorion sy'n ymwneud â swyddfeydd eisoes yn dod o dan egwyddorion cyffredinol y Penderfyniad a dyletswyddau statudol ehangach yr Aelodau.

Crynodeb o'r ymatebion

46. Roedd grwpiau Llafur a Phlaid Cymru ill dau'n anghytuno â'r cynnig.

47. Nododd grŵp Plaid Cymru bwysigrwydd swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol i etholwyr fel lle i ymgysylltu â'r Aelodau a theimlai y gallai dileu'r egwyddorion atal Aelodau rhag rhentu swyddfeydd. Nodwyd hefyd pa mor bwysig y bydd hyblygrwydd i'r Aelodau yn etholaethau aml-aelod newydd y Seithfed Senedd o ran gallu prydlesu mwy nag un swyddfa neu fannau eraill i gwrdd ag etholwyr.

48. Cydnabu'r Grŵp Llafur fod yr egwyddorion ar swyddfeydd yn cael eu hadlewyrchu mewn mannau eraill, megis mewn rhannau eraill o'r Penderfyniad ac yn Rheolau a Chanllawiau'r Swyddog Cyfrifyddu ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd. Nododd hefyd nad yw'r adnoddau sydd ar gael i'r Aelodau bob amser wedi bod yn ddigonol i fodloni nodau'r egwyddorion, yn enwedig prydlesu swyddfeydd hygyrch mewn ardaloedd rhent uchel. Serch hynny, barn y Grŵp oedd y bydd yr egwyddorion yn parhau i fod yn berthnasol yn y Seithfed Senedd ac y dylid eu cadw.

49. Nododd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig fod yr egwyddorion yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol Aelodau o safon addas.

Trafod yr ymatebion

50. Trafododd y Bwrdd y safbwyntiau a fynegwyd. Cydnabu'r Bwrdd fod safbwyntiau gwahanol o ran yr angen am swyddfeydd etholaethol a'u diben; amcan y Bwrdd yw sicrhau bod adnoddau ar gael sy'n ddigon hyblyg ac ymatebol i ddewisiadau ac anghenion yr Aelodau.

51. Mae'r Penderfyniad eisoes yn cynnwys rhai egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i ddewis yr Aelodau o swyddfeydd a'u defnydd ohonynt. Daeth i'r casgliad felly nad yw rhai o'r

egwyddorion penodol sy'n ymwneud â swyddfeydd bellach yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r Aelodau'n eu defnyddio. Yn benodol, mae rhai Aelodau bellach yn dewis prydlesu swyddfeydd mewn lleoliadau llai 'hygyrch' i'r cyhoedd. Er enghraifft, ar ystadau diwydiannol sydd wedi'u lleoli y tu allan i ganol trefi. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod swyddfeydd yn cael eu prydlesu gan rai Aelodau fel man gwaith iddyn nhw a'u staff yn unig yn hytrach nag fel lleoedd a ddefnyddir yn bennaf i gwrdd â'r cyhoedd neu i ymgysylltu â nhw.

52. Yn ogystal, nododd y Bwrdd nad yw'r egwyddor o fod yn 'agored a chroesawgar' bob amser yn berthnasol i drefniadau gwaith presennol yr Aelodau gan nad yw swyddfeydd bob amser yn cael eu cadw ar agor oherwydd pryderon diogelwch, ac mewn rhai achosion bydd staff yn gweithio gartref; mae ffyrdd modern o weithio yn golygu felly nad oes modd cyflawni'r egwyddor hon neu nad yw o reidrwydd yn ddymunol. Nodwyd hefyd efallai na fydd yn glir i'r Aelodau sut i roi'r egwyddor o ddiogelu enw da'r Senedd ar waith.

53. Fel y nodwyd uchod, roedd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn amlwg yn teimlo y gallai dileu'r egwyddorion sy'n ymwneud â swyddfeydd atal Aelodau rhag prydlesu swyddfeydd. Nid dyma'r bwriad, ond yn hytrach roi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau, a bydd y gyllideb costau swyddfa a chysylltu ag etholwyr ar gyfer y Seithfed Senedd yn parhau i ganiatáu i'r holl Aelodau brydlesu swyddfa os ydynt yn dymuno. Bwriad cael gwared ar yr egwyddorion yw adlewyrchu'r ffyrdd cyfredol o weithio, rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i Aelodau o ran sut y defnyddir swyddfeydd ar brydles a sut maent yn ymgysylltu ag etholwyr, yn ogystal â symleiddio'r Penderfyniad. Ni ddylai cael gwared ar yr egwyddorion effeithio ar benderfyniadau'r Aelodau o ran a ydynt am brydlesu swyddfa. Fodd bynnag, os byddant yn dewis gwneud hynny, ni fydd rhaid i'w defnydd o'r swyddfa gydymffurfio â'r egwyddor o fod yn 'agored a chroesawgar' mwyach, sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio swyddfa fel man gwaith yn unig neu ar gyfer unrhyw ddiben arall y prydlesir y swyddfa ato.

54. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i symleiddio'r Penderfyniad drwy gael gwared ar gynnwys diangen. Am y rhesymau hyn, roedd y Bwrdd o'r farn y dylid cael gwared ar yr egwyddorion gan fod yr egwyddorion sy'n parhau'n berthnasol, gan gynnwys diogelwch swyddfeydd, eisoes wedi'u cynnwys yn y gyfraith, yn egwyddorion cyffredinol y Penderfyniad neu yn Rheolau a Chanllawiau'r Swyddog Cyfrifyddu ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd.

Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd ddileu'r egwyddorion sy'n ymwneud â swyddfeydd, gan nodi y bydd egwyddorion a gofynion perthnasol yn parhau i fod yn y Penderfyniad gan gynnwys rhesymoldeb, cynaliadwyedd, enw da a gwerth am arian.

Cynnig Dau:

Cyllideb cychwyn Swyddfa i fod ar gael i'r holl Aelodau

Y cefndir

55. Mae'r lwfans cychwyn swyddfa ar gael i 'Aelodau sy'n dymuno sefydlu swyddfa etholaethol neu swyddfa ranbarthol am y tro cyntaf'.

56. Fodd bynnag, yn y Seithfed Senedd, mae'n debygol y bydd Aelodau sy'n dychwelyd a fydd yn cynrychioli etholaethau newydd oherwydd newidiadau i ffiniau'r etholaethau. O'r herwydd, gallai'r Aelodau hynny sy'n dychwelyd wynebu costau ychwanegol naill ai i adleoli eu swyddfa etholaethol bresennol neu i ddiweddarau arwyddion a deunyddiau cyfathrebu eraill i adlewyrchu enw newydd yr etholaeth.

57. Gan hynny, mae'r Bwrdd yn cynnig y dylai'r gyllideb cychwyn swyddfa fod ar gael i **bob** Aelod ar ddechrau'r Seithfed Senedd. Gallai'r gyllideb gael ei defnyddio gan Aelodau newydd i sefydlu swyddfa a chan Aelodau sy'n dychwelyd nad ydynt yn symud swyddfa ond a allai fod angen gwneud newidiadau rhesymol i'w swyddfeydd.

Crynodeb o'r ymatebion

58. Roedd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig a grŵp Llafur Cymru yn cytuno â'r cynnig.

59. Nododd grŵp Plaid Cymru y dylai holl Aelodau'r Seithfed Senedd gael cyllideb cychwyn swyddfa am gyfnod penodol o amser. Nododd hefyd y dylai offer swyddfa fod ar gael i Aelod arall pan fydd Aelod yn colli ei sedd neu'n sefyll i lawr.

60. Nododd Comisiwn y Senedd a'r Swyddog Cyfrifyddu na fyddai Aelodau sy'n cael eu haillethol nad ydynt yn symud eu swyddfa etholaethol yn wynebu'r un costau cychwyn swyddfa ag Aelodau eraill, er y byddai rhai costau oherwydd diwygio'r Senedd, e.e. newidiadau i arwyddion i adlewyrchu enwau'r etholaethau newydd.

Trafod yr ymatebion

61. Nododd y Bwrdd efallai y byddai'n well gan rai Aelodau symud eu swyddfeydd yn dilyn yr etholiad ac efallai na fydd rhai o'r Aelodau sy'n dychwelyd am wneud hynny. Mae'r Bwrdd o'r farn y dylai pob Aelod allu sefydlu ei swyddfa yn y ffordd y mae'n dewis ac felly, dylai pob Aelod allu cael cyllid cychwyn swyddfa. Nododd y Bwrdd fod digon o fesurau diogelu ar waith i ddiogelu rhag gwariant diangen gan Aelodau sy'n golygu na fydd yr Aelodau hynny nad ydynt

yn prydlesu swyddfa yn gallu gwario'n ddiangen, hyd yn oed os yw'r gyllideb cychwyn swyddfa lawn ar gael iddynt.

Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd ddarparu cyllideb cychwyn swyddfa i bob Aelod yn y Seithfed Senedd.

Bydd y Bwrdd hefyd yn ymgynghori ar faterion 'cychwyn swyddfa' pellach yn ymgynghoriad Rhan Dau y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

Cynnig Tri:

Bydd pob Aelod yn cael yr un gyllideb ar gyfer Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu

Y cefndir

62. Mae'r Penderfyniad yn pennu cyfradd is ac uwch o symiau y gall Aelodau eu hawlio er mwyn rhedeg swyddfa. O 1 Ebrill 2025, gall Aelodau sy'n gweithio'n gyfan gwbl o swyddfa'r Senedd ym Mae Caerdydd hawlio hyd at £11,205 y flwyddyn ar gyfer eu costau busnes. Gall Aelodau sy'n dewis prydlesu swyddfa yn eu hetholaeth neu ranbarth hawlio hyd at £27,430 ar gyfer eu costau busnes.

63. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod bod dewisiadau'r Aelodau'n amrywio o ran eu dull o weithio yn yr etholaeth ac ymgysylltu. Mae'r defnydd o swyddfeydd wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n debygol o esblygu ymhellach pan fydd pob Aelod yn gwasanaethu etholaethau aml-aelod yn y Seithfed Senedd. Ers pandemig Covid-19, bu cynnydd hefyd mewn gweithio o bell, ac mae ffyrdd o weithio wedi newid yn sylweddol.

64. Gan hynny, cynigiodd y Bwrdd y bydd pob Aelod yn gallu hawlio'r un lefel o gyllideb, ni waeth a oes ganddo swyddfa etholaethol ai peidio. Drwy ddileu'r terfyn is ar wariant ar gyfer y rhai nad oes ganddynt swyddfa etholaethol, gall Aelodau ddewis sut i ddiwallu anghenion eu hetholwyr a'r ffordd o weithio y maent yn ei ffafrio.

Crynodeb o'r ymatebion

65. Roedd y Grŵp Llafur yn cytuno â'r cynnig gan nodi bod tegwch wrth ddarparu adnoddau i bob Aelod yn bwysig.

66. Roedd grŵp Plaid Cymru yn anghytuno ar y sail y gallai'r newid arfaethedig roi Aelodau sy'n prydlesu swyddfa o dan anfantais o gymharu â'r rhai nad ydynt yn prydlesu swyddfa, gan y byddai llai o'r gyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu ar gael iddynt i'w gwario ar ymgysylltu ag etholwyr.

67. Nododd Comisiwn y Senedd y byddai'r cynnig yn arwain at gostau uwch na ellir eu hamcangyfrif ar hyn o bryd ac y byddai'r effaith fwyaf ar gostau i'w gweld yn ystod blwyddyn etholiad gan na ellid trin y gyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu sydd ar gael i'r Aelodau ar sail pro rata mwyach o'r dyddiad y cytunir ar brydles swyddfa, gyda'r holl Aelodau'n cael y gyllideb lawn pan gânt eu hethol.

68. Roedd y Swyddog Cyfrifyddu yn cytuno â'r cynnig, ond nododd hefyd y gallai Aelodau sy'n gallu rhedeg eu swyddfeydd yn gyfan gwbl o Dŷ Hywel gael eu trin yn fwy manteisiol o safbwynt ariannol na'r Aelodau y mae angen iddynt brydlesu swyddfa. Gallai Aelodau sy'n cynrychioli ardaloedd yng Nghaerdydd a'r cyffiniau redeg eu swyddfeydd yn gyfan gwbl yn Nhŷ Hywel heb gost tra byddai rhaid i Aelodau sy'n cynrychioli ardaloedd eraill o Gymru ac y mae angen iddynt brydlesu swyddfa etholaethol dalu rhent swyddfa a chostau cysylltiedig.

Trafod yr ymatebion

69. Trafododd y Bwrdd yr holl safbwyntiau a ddaeth i law.

70. Nododd y Bwrdd fod angen swyddfa etholaethol yn rhannol er mwyn hwyluso'r gwaith o ymgysylltu ag etholwyr. Felly, dylid ystyried cost prydlesu swyddfa yn gost ymgysylltu ochr yn ochr â chostau mathau eraill o ymgysylltu ag etholwyr a gall Aelodau ddewis y dulliau ymgysylltu y maent yn eu ffafrio.

71. Nododd y Bwrdd fod dadansoddiad o wariant yn dangos bod Aelodau yn y Senedd bresennol yn gwario symiau gwahanol ar gostau ymgysylltu a chostau swyddfa, ac nad oes gan rai swyddfa etholaethol o gwbl. Barn y Bwrdd yw bod darparu'r un gyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu i bob Aelod yn sicrhau'r hyblygrwydd a'r symlrwydd mwyaf posibl ac nad yw'n rhoi rhai Aelodau o dan anfantais o gymharu ag eraill.

Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd ddarparu'r gyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu ar yr un lefel i bob Aelod yn y Seithfed Senedd.

Cynnig Pedwar:

Cyllideb Swyddfa Etholaethol ac ymgysylltu i aros ar y lefel bresennol (yn amodol ar fynegeio blynyddol) yn y Seithfed Senedd. Bydd trosglwyddiadau arian rhwng cyllidebau yn cael eu cadw

Y cefndir

72. Mae etholaethau newydd arfaethedig y Senedd yn fwy na'r rhan fwyaf o'r etholaethau presennol, ac yn fwy poblog, ond yn llai na'r rhanbarthau presennol. Cyn symud o drefn lle mae'r Aelodau'n cynrychioli etholaethau a rhanbarthau i drefn etholaethau aml-aelod, mae'r Bwrdd wedi adolygu'r swm o arian sydd ar gael ar gyfer swyddfeydd etholaethol ac ymgysylltu. Mae dadansoddiad o'r data gwariant yn awgrymu bod y gyllideb bresennol yn ddigonol ar gyfer y rhan fwyaf o Aelodau.

73. Wedi ystyried y dystiolaeth, nid oedd y Bwrdd yn cynnig y dylid newid y gyllideb hon. Yn hytrach, cynigiodd y dylid parhau â'r arfer o uwchraddio'r cyfanswm sydd ar gael yn ôl cyfradd chwyddiant.

74. Gall yr Aelodau drosglwyddo arian rhwng cyllidebau yn unol â'u blaenoriaethau, sy'n rhoi rhagor o hyblygrwydd iddynt ddyrannu arian yn unol â'u hanghenion a'u blaenoriaethau.

75. Ymgynghorodd y Bwrdd ynghylch a yw'r terfynau presennol ar gyfer trosglwyddo arian rhwng cyllidebau'r Aelodau yn rhoi digon o hyblygrwydd neu a ddylid eu cynyddu neu eu lleihau cyn y Seithfed Senedd, ac os felly am ba reswm.

Crynodeb o'r ymatebion

76. Roedd y grŵp Llafur a Chomisiwn y Senedd yn cytuno â'r cynnig. Awgrymodd y grŵp Llafur y dylid adolygu digonolrwydd y gyllideb yn ystod y Seithfed Senedd.

77. Roedd grŵp Plaid Cymru yn anghytuno â'r cynnig, gan nodi y dylid cynyddu'r gyllideb i adlewyrchu'r costau uwch i Aelodau a fydd yn gweithio mewn etholaethau mwy o faint yn y Seithfed Senedd a phwysau chwyddiant ar wariant Aelodau.

78. Roedd y grŵp Llafur a grŵp Plaid Cymru yn cytuno y dylid cadw trosglwyddiadau arian rhwng cyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu a chyllideb staffio'r Aelodau. Dadleuodd y ddau grŵp o blaid terfyn uwch ar gyfer trosglwyddo arian er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau i reoli cyllidebau yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau eu hunain.

79. Roedd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig o blaid uno'r cyllid staffio a'r cyllid swyddfeydd etholaethol ac ymgysylltu.

Trafod yr ymatebion

80. Mae'r Bwrdd eisoes wedi trafod y modd y mae'r Aelodau'n gwario'r gronfa costau swyddfa a chysylltu ag etholwyr yn ystod y Chweched Senedd. Yn 2023/24 (sef y data diweddaraf sydd ar gael), gwariodd 55% o'r Aelodau lai na 75% o'u cyllideb costau swyddfa a chysylltu ag etholwyr a gwariodd 13% o'r Aelodau dros 90% o'r gyllideb a oedd ar gael iddynt. Cyfanswm y gwariant ar draws cyllideb gyfan pob un o'r 60 o Aelodau oedd 72% yn 2021/22, 80% yn 2022/23 a 74% yn 2023/24. Felly, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad bod lefel y gyllideb yn ddigonol ar hyn o bryd.

81. O ystyried y sylwadau yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cytunodd y Bwrdd y dylid adolygu digonolrwydd y gyllideb yn ystod y Seithfed Senedd ar sail profiadau ac anghenion Aelodau newydd ac Aelodau sy'n dychwelyd a'u ffyrdd o weithio yn yr etholaethau newydd.

82. Trafododd y Bwrdd yr ymatebion ynghylch y terfyn ar y swm y caniateir i Aelodau ei drosglwyddo rhwng eu cyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu a'u cyllideb staffio. O ystyried yr adborth a gafwyd, ac yn unol â'i amcan strategol o roi hyblygrwydd i'r Aelodau i benderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain, mae'n fwriad gan y Bwrdd gynyddu'r uchafswm y caniateir ei drosglwyddo rhwng y gyllideb staffio a'r gyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu o 25% i 50% o werth y gronfa swyddfeydd etholaethol ac ymgysylltu.

83. Bydd y Bwrdd yn ymgynghori ar y cynnig penodol hwn drwy ymgynghoriad Rhan Dau y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd gadw'r gyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu ar y lefel bresennol (yn amodol ar fynegeio blynyddol) yn y Seithfed Senedd.

Bydd digonolrwydd y gyllideb yn cael ei adolygu yn ystod y Seithfed Senedd ar sail profiadau ac anghenion Aelodau newydd ac Aelodau sy'n dychwelyd a'u ffyrdd o weithio yn yr etholaethau newydd.

Bydd y Bwrdd yn ymgynghori ar gynyddu'r uchafswm y caniateir ei drosglwyddo rhwng y gyllideb staffio a'r gyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu o 25% i 50% o werth y gronfa swyddfeydd etholaethol ac ymgysylltu.

Cynnig Pump:

Cael gwared ar y gofyniad i Gomisiwn y Senedd gymeradwyo penderfyniadau prydlesu swyddfeydd yr Aelodau ymlaen llaw

Y cefndir

84. Ar hyn o bryd, mae'r Penderfyniad yn nodi bod rhaid i Gomisiwn y Senedd gymeradwyo penderfyniadau penodol gan Aelodau ynghylch prydlesu, is-osod a rhannu swyddfeydd. Er enghraifft, mae rhaid i Gomisiwn y Senedd gymeradwyo trefniant rhannu swyddfa pan fo Aelod yn rhentu rhan o swyddfa oddi wrth sefydliad sy'n gysylltiedig â phlaid wleidyddol neu undeb llafur, neu i sefydliad sy'n gysylltiedig â phlaid wleidyddol neu undeb llafur, a rhaid iddo fod yn fodlon bod unrhyw amrywiad arfaethedig i'r rhent wedi'i asesu gan brisiwr cymwysedig. Yn yr un modd, ni chaiff unrhyw gynnydd arfaethedig yn y rhent hwnnw ei ad-dalu oni bai bod y Comisiwn yn fodlon ei fod yn rhesymol.

85. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi bod y Bwrdd yn bwriadu sicrhau eglurder ynghylch rôl y Comisiwn wrth gefnogi penderfyniadau'r Aelodau ar brydlesu swyddfeydd. Hefyd, ategodd y Bwrdd fod egwyddorion gwerth am arian a rhesymoldeb yn berthnasol i bob hawliad a wneir. Mae'r Bwrdd o'r farn y dylai'r Aelodau fod yn gwbl atebol am bob agwedd ar eu gwariant, ac felly cynigiodd y dylid cael gwared ar y gofyniad yn y Penderfyniad i Gomisiwn y Senedd gymeradwyo penderfyniadau prydlesu'r Aelodau ymlaen llaw.

Crynodeb o'r ymatebion

86. Ni fynegodd grwpiau Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig farn ar y cynnig hwn.

87. Roedd grŵp Llafur Cymru yn anghytuno â'r cynnig ar y sail bod cymeradwyo penderfyniadau prydlesu swyddfeydd yr Aelodau ymlaen llaw yn bwysig at ddibenion tryloywder ac atebolrwydd. Nododd y Grŵp y dylid ystyried osgoi'r angen i gael mwy nag un prisiad ar gyfer rhent swyddfa, er enghraifft, os bydd perchenogaeth swyddfa ar brydles yn newid.

88. Roedd y Swyddog Cyfrifyddu yn cytuno â'r cynnig. Nododd Comisiwn y Senedd ei bod yn briodol mai'r Aelodau yn hytrach na'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau addasrwydd prydlesi swyddfeydd.

Trafod yr ymatebion

89. Nododd y Bwrdd y farn bod cymeradwyo prydlesi ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd yn bwysig o ran tryloywder ac atebolrwydd.

90. Nododd y Bwrdd hefyd, pe ceid gwared ar y gofyniad i gymeradwyo prydlesi swyddfeydd ymlaen llaw, y byddai'n dal i fod yn ofynnol i'r Aelodau adneuo copi o gytundebau prydlesu gyda'r Comisiwn, sy'n golygu y byddai cytundebau prydlesu ar gael at ddibenion archwilio ac y byddai modd cynnal tryloywder ac atebolrwydd.

91. Daeth y Bwrdd i'r casgliad mai'r Aelodau ddylai fod yn gyfrifol am addasrwydd cytundebau prydlesu swyddfeydd a bod y gofyniad i'r Comisiwn gymeradwyo cytundebau prydlesu ymlaen llaw yn cymylu'r llinellau atebolrwydd; felly, mae'n fwriad gan y Bwrdd gael gwared ar y gofyniad i Gomisiwn y Senedd gymeradwyo cytundebau prydlesu.

Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd gael gwared ar y gofyniad i Gomisiwn y Senedd gymeradwyo penderfyniadau prydlesu swyddfeydd yr Aelodau ymlaen llaw yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

Cymorth i Grwpiau'r Senedd

Cynnig Un:

Ailenwi Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yn Gymorth i Grwpiau'r Senedd

Darperir Cymorth i Grwpiau'r Senedd i Grwpiau, fel y'u diffinnir yn y Rheolau Sefydlog, er mwyn cynorthwyo'r Aelodau hynny sy'n perthyn i'r Grŵp i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Senedd.

Ni fydd cymorth ychwanegol i Aelodau unigol (fel y'i darperir ar hyn o bryd) neu grwpiau o Aelodau nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o grŵp gwleidyddol a nodir yn y Rheolau Sefydlog yn gymwys mwyach.

Y cefndir

92. Ymgynghorodd y Bwrdd ar newid enw'r gronfa hon, o 'Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol' i 'Cymorth i Grwpiau'r Senedd'. Nod y cynnig hwn oedd ceisio egluro diben y cymorth i grwpiau o Aelodau ac osgoi unrhyw gamddealltwriaeth ynghylch defnyddio'r cymorth ar gyfer gweithgarwch gwleidyddol plaid, er bod y Penderfyniad yn glir na chaniateir hynny.

93. Mae adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y caiff y Bwrdd wneud darpariaeth ar gyfer cymorth i 'grwpiau gwleidyddol'. Mae adran 24 hefyd yn darparu mai mater i'r Senedd yw diffinio 'grŵp gwleidyddol' at y diben hwn drwy'r Rheolau Sefydlog. Felly, mae'r Bwrdd o'r farn mai dim ond i 'grwpiau gwleidyddol' o fewn cwmpas y diffiniad yn y Rheolau Sefydlog (Rheol Sefydlog 1.3 ar hyn o bryd) y dylid darparu Cymorth i Grwpiau'r Senedd. Mae'r Bwrdd o'r farn y byddai hyn yn sicrhau bod y cymorth i grwpiau yn cyd-fynd yn well â phwerau'r Bwrdd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a diben datganedig y Bwrdd o ran cymorth i grwpiau.

Crynodeb o'r ymatebion

94. Roedd cefnogaeth at ei gilydd i'r cynnig i newid yr enw i 'Cymorth i Grwpiau'r Senedd', ond roedd grŵp Plaid Cymru ac ymatebydd unigol yn anghytuno. Dywedodd grŵp Plaid Cymru:

'Mae'n bwysig dangos rôl ganolog pleidiau gwleidyddol yn ein democratiaeth seneddol, ond mae angen i'r enw hefyd adlewyrchu diben y ddarpariaeth.'

95. Gwnaeth grŵp Plaid Cymru sylwadau pellach am natur datblygu polisi a chyllid i bleidiau gwleidyddol, gan ddweud:

'Rydym yn gresynu fod trefniadau ariannu yng Nghymru yn parhau i fod yn wahanol i'r drefn yn Nhŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Ymddengys fod y materion strwythurol hyn yn sgil-ffaith o ddyddiau cynnar datganoli a chyfansoddiad y Cynulliad ar y pryd a sefydlwyd ym 1999 fel corff corfforaethol.'

- 96.** Lleisiwyd pryderon tebyg mewn ymateb gan unigolyn, a nododd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr bwysigrwydd datblygu polisi fel swyddogaeth graidd.
- 97.** Roedd cefnogaeth i'r cynnig mai dim ond i Grwpiau fel y'u diffinnir yn y Rheolau Sefydlog y dylid darparu Cymorth i Grwpiau'r Senedd. Roedd pob grŵp yn cytuno â'r cynnig hwn, ond dywedodd grŵp Plaid Cymru y dylid gwneud rhagor o ymchwil i ystyried yr effaith ar Aelodau unigol, a bod *'dadl i'w gwneud y dylid rhoi'r cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt i gyflawni eu gwaith craffu'*.
- 98.** Nododd Comisiwn y Senedd fod gan *'holl Aelodau'r meinciau cefn ran hollbwysig i'w chwarae...'*, a bod Aelodau nad ydynt yn rhan o grŵp *'yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt er mwyn gallu cydgysylltu eu cyfranogiad ym musnes y Senedd, gan ei bod yn debygol y bydd eu haelodau'n dymuno cydweithio. Efallai y byddant yn troi at y Comisiwn neu'r Bwrdd i ddiwallu'r angen hwnnw.'*

Trafod y cynigion

- 99.** Roedd cefnogaeth at ei gilydd i newid yr enw o 'Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol' i 'Cymorth i Grwpiau'r Senedd'. Nododd y Bwrdd y safbwyntiau hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig, ond mae'n dal i fod o'r farn bod ailenwi'r cymorth i grwpiau'n bwysig er mwyn rhoi eglurder ynghylch y diben, ac yn gyson â phwerau statudol y Bwrdd.
- 100.** Dim ond â darparu cymorth i 'grwpiau gwleidyddol', fel y nodir ym Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y mae swyddogaethau a phwerau'r Bwrdd yn ymwneud. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw bŵer i ddiwygio'r ddeddfwriaeth hon – mater i'r Senedd a/neu Senedd y DU fyddai hynny. Mae'r Senedd wedi deddfu, drwy'r Mesur ac adran 24, 'Cymorth i Grwpiau o Aelodau o'r Senedd', mai dim ond â 'grwpiau' y Senedd fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog, yn hytrach na phleidiau gwleidyddol, y mae swyddogaethau'r Bwrdd yn ymwneud.
- 101.** Yn ogystal, bydd y Bwrdd yn cynnwys crynodeb ehangach o ddiben a defnydd cymorth i grwpiau nag a geir ar hyn o bryd yn y Penderfyniad. Dylai hyn roi mwy o eglurder i grwpiau ac Aelodau ynghylch cwmpas y cymorth, yng nghyd-destun yr egwyddorion yn y Penderfyniad.

102. Nododd y Bwrdd y sylwadau a wnaed ynghylch yr angen i ddarparu cymorth i bob Aelod ar y 'meinciau cefn' neu i Aelodau unigol ac i gefnogi eu gallu i gymryd rhan ym musnes y Senedd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r newid i ddarparu'r cyllid cymorth i grwpiau i Grwpiau yn unig, fel y'u diffinnir yn Rheolau Sefydlog, yn y Seithfed Senedd. Mae'n bwysig nodi y bydd Aelodau unigol yn parhau i gael adnoddau a chymorth, drwy'r Penderfyniad, drwy eu cyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu a'u cyllideb staffio, ac y byddant hefyd yn gallu cyfuno eu hadnoddau.

103. Mae'r Bwrdd wedi nodi bod adolygiad Pwyllgor Senedd y Dyfodol o'r Rheolau Sefydlog⁵ wedi dod i'r casgliad bod cynyddu maint grŵp o 3 i rhwng 5 a 10 Aelod yn briodol ar gyfer Senedd fwy o faint, a bod y Pwyllgor Busnes 'mewn sefyllfa well' i bennu trothwyon y Rheolau Sefydlog. Hyd nes y bydd y Pwyllgor Busnes wedi gwneud penderfyniad, mae'r Bwrdd yn parhau i dybio, at ddibenion modelu, mai tri Aelod yw'r trothwy ar gyfer Grŵp o dan y Rheolau Sefydlog. Bydd y Bwrdd yn aros am unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a wneir gan y Pwyllgor Busnes yn hyn o beth.

Canlyniad

Mae'n fwiad gan y Bwrdd newid enw'r gronfa Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol i 'Cymorth i Grwpiau'r Senedd'.

Yn y Seithfed Senedd, mae'n fwiad gan y Bwrdd ddarparu'r cymorth hwn i Grwpiau yn unig, fel y'u diffinnir yn y Rheolau Sefydlog, er mwyn cynorthwyo'r Aelodau hynny sy'n perthyn i'r Grŵp i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Senedd.

Mae'n fwiad gan y Bwrdd gael gwared ar y cymorth ychwanegol presennol i Aelodau unigol, neu grwpiau o Aelodau nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o Grŵp gwleidyddol a nodir yn y Rheolau Sefydlog yn y Seithfed Senedd.

Bydd y Bwrdd yn adolygu'r Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn sgil unrhyw benderfyniad gan y Pwyllgor Busnes ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

⁵ <https://senedd.wales/media/ve0ljakv/cr-ld17024-w.pdf>

Cynnig Dau:

Mae Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn rhoi adnoddau i Grwpiau ddarparu gweinyddiaeth a chydgyssylltu canolog, ymchwil a llunio polisiau sy'n ymwneud â dyletswyddau'r Aelodau, cymorth cyfathrebu, cymorth bugeiliol a llesiant, offer a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â staffio yn ogystal â gweithredu swyddfa grŵp.

Y cefndir

104. Gwnaeth y Bwrdd waith ymchwil ac ymgysylltodd ag Aelodau a grwpiau ynghylch diben cymorth i grwpiau'r Senedd.

105. Nod y Bwrdd oedd cynnal hyblygrwydd er mwyn i gyllideb y grŵp fod yn ymatebol i anghenion, blaenoriaethau a ffyrdd o weithio Aelodau ym mhob grŵp, ond cynnwys crynodeb ehangach o ddiben a defnydd y cymorth i grwpiau nag a geir yn y Penderfyniad ar hyn o bryd. Dylai hyn roi mwy o eglurder i grwpiau ac Aelodau ynghylch cwmpas y cymorth a byddai'n parhau i fod wedi'i osod yng nghyd-destun ehangach yr egwyddor graidd a nodir ym Mhennod 1 o'r Penderfyniad, sef 'rhaid peidio â gwneud cais am wariant sy'n ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol plaid'.

Crynodeb o'r ymatebion

106. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi neu'n croesawu'r diben newydd arfaethedig, gan gynnwys pob un o'r grwpiau gwleidyddol a'r Swyddog Cyfrifyddu; y farn gyffredinol oedd ei fod yn adlewyrchu cylch gorchwyl ehangach y grwpiau yn 'well'.

107. Dywedodd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig y dylai gydnabod yn benodol ofynion ychwanegol 'gwrthblaid swyddogol' a dywedodd grŵp Plaid Cymru y dylai gynnwys '*...y gwaith o ffurfio a chefnogi cabinet cysgodol i graffu ar y llywodraeth, ac adlewyrchu'r gwaith pwysig o ddatblygu rhaglen lywodraethu amgen*'.

108. Nodwyd yn ymateb grŵp Plaid Cymru ac mewn ymateb gan unigolyn fod datblygu polisiau yn rôl graidd a chyfeiriwyd at ddull Arian Short; roedd yr ymateb gan unigolyn hefyd yn dadlau bod y diben arfaethedig yn rhy gul ac y dylai'r Bwrdd ddarparu cyllid ar gyfer gwaith gwleidyddol y pleidiau.

109. Nododd grŵp Plaid Cymru ac unigolyn y baich gweinyddol a'r anhyblygrwydd sydd ynghlwm wrth orfod gofyn i Gomisiwn y Senedd awdurdodi gwariant grŵp ymlaen llaw, ac

awgrymwyd y gallai hyn roi'r Swyddog Cyfrifyddu mewn sefyllfa heriol ar adegau. Dywedodd grŵp Plaid Cymru:

'Mae'r system bresennol yn gosod cyfrifoldeb personol sylweddol ar Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, gan weithredu fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Senedd, am holl dreuliau grwpiau gwleidyddol. Nid yw'r strwythur hwn yn cydnabod yn llawn natur gynhenid wleidyddol gwaith Grwpiau'r Senedd a gwaith Aelodau'r Senedd.'

110. Ategwyd y safbwyntiau hynny mewn ymateb gan unigolyn, a awgrymodd mai'r weithdrefn safonau neu'r llysoedd yw'r cyfrwng ar gyfer unrhyw achosion honedig o dorri'r rheolau gwariant, ac y byddai'n fwy priodol rhoi'r cyfrifoldeb am wariant i'r Aelodau, gyda threfn archwilio allanol i gyd-fynd â hynny.

111. Roedd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu'r diben diwygiedig a'r ffaith y byddai mwy o hyblygrwydd, ond roedd am weld:

'...support allowed to be spent on Group promotional items. For example, producing policy booklets or leaflets informing constituents on issues that relate to the work of the Group in the Senedd have to come from an individual MS or MS' budget despite relating to the work of the Group.'

112. Roedd y Swyddog Cyfrifyddu yn cefnogi'r diffiniad arfaethedig ond gofynnodd am eglurhad, at ddibenion gweinyddol yn y dyfodol, ynghylch '*...y disgwyliad i ddefnyddio'r arian yn bennaf i gyflogi staff'* ac '*...a yw'r rhestr o gategorïau a ddarperir yn y diben yn gyfyngedig neu'n ddangosol, ac a yw'r Bwrdd yn bwriadu cwmpasu ystod eang o wariant y tu hwnt i'r dibenion craidd a nodir yn ei ymgynghoriad.'*

Trafod yr ymatebion

113. Roedd yr ymatebion yn aml yn cymharu'r cymorth presennol ac arfaethedig i grwpiau gwleidyddol ag Arian Short Tŷ'r Cyffredin, a mynegwyd rhwystredigaeth ynghylch y cyfyngiadau ar gymorth o ran pleidiau gwleidyddol a datblygu polisi yng nghyd-destun y Senedd.

114. Nodir swyddogaethau statudol y Bwrdd o ran cymorth i 'grwpiau gwleidyddol' yn y Senedd ym mharagraff 94 a 101 uchod. Mae Arian Short a Chronfa Datblygu Polisi'r DU yn ffynonellau cyllid ar wahân a chânt eu darparu neu eu dosbarthu gan Senedd y DU a'r Comisiwn Etholiadol.

115. Mae'r Bwrdd yn nodi nad yw Rheolau Sefydlog y Senedd ar hyn o bryd yn cyfeirio at 'Wrthblaid Swyddogol' na 'gwrthblaid' yn y Senedd, nac yn eu cydnabod. Mae diben arfaethedig y Bwrdd yn ehangach na'r diffiniad presennol ac mae'n egluro bod llunio polisiau yn un o ddibenion craidd cymorth i grwpiau gwleidyddol. Fodd bynnag, gall y ffin rhwng datblygu cynigion polisi amgen i lywio gwaith craffu effeithiol ar y Llywodraeth a gweithgarwch gwleidyddol plaid fod yn annelwig. Er enghraifft, ni fyddai datblygu maniffesto fel rhan o ymgyrch etholiadol, yn amlwg, yn rhan o gwmpas cymorth i grwpiau gwleidyddol.

116. Roedd 'datblygu polisiau' yn derm y cyfeiriwyd ato'n aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad; felly, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnwys y term 'datblygu polisiau' yn lle 'llunio polisiau', sef y term a ddefnyddiwyd yn wreiddiol yn y diben arfaethedig, er mwyn sicrhau bod y derminoleg yn fwy eglur a chyson.

117. Tynnodd nifer o'r ymatebion sylw at bwysigrwydd craffu deddfwriaethol fel un o swyddogaethau'r cymorth i grwpiau, nad oedd diben newydd arfaethedig Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn cyfeirio'n benodol ato, er ei fod wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori fel un o swyddogaethau craidd pob grŵp. Felly mae'r Bwrdd yn bwriadu ychwanegu hyn at y diben er mwyn sicrhau eglurder ac fel rôl allweddol a gyflawnir gan grwpiau, yn enwedig grwpiau anllywodraethol.

118. Mae'r Penderfyniad ar hyn o bryd yn nodi y gellir defnyddio cyllid cymorth i grwpiau ar gyfer costau staffio ac offer swyddfa a llogi cyfleusterau ac y gellir defnyddio unrhyw 'falans sy'n weddill' ar gyfer arbenigwyr allanol i wneud gwaith ymchwil ar ddatblygu polisiau, ymchwilio i faterion sydd o bwys i etholwyr a chraffu ar bolisi, deddfwriaeth neu gyngor. Mae'r Bwrdd yn nodi bod y Swyddog Cyfrifyddu wedi gofyn am eglurder ynghylch a yw'r cyllid yn cael ei ddarparu *'yn bennaf i gyflogi staff'* ac *'...a yw'r rhestr o gategoriau a ddarperir yn y diben yn gyfyngedig neu'n ddangosol'*. Er mwyn rhoi hyblygrwydd i'r Aelodau wrth iddynt wneud penderfyniadau, ac er mwyn rhoi eglurder o ran dehongli'r diben, mae'n fwriad gan y Bwrdd gadarnhau mai rhestr ddangosol yw hon a chynnwys cyfeiriad hefyd at 'wasanaethau a gomisiynir yn allanol' yn y rhestr hon o ddibenion y gronfa.

119. Nododd y Bwrdd sylwadau rhai o'r ymatebwyr ynghylch symleiddio'r broses o gymeradwyo gwariant ymlaen llaw, cylch gwaith y Swyddog Cyfrifyddu a phosiblwydd archwilio allanol.

120. Fodd bynnag, mae rôl a swyddogaethau statudol y Bwrdd a rôl a swyddogaethau statudol y Swyddog Cyfrifyddu yn wahanol ac ar wahân; mae swyddogaethau'r Bwrdd yn gyfyngedig i benderfynu ar gyflogau a lwfansau'r Aelodau a phensiynau ac arian rhodd i gyn-Aelodau, tra bo'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am benderfynu ar unrhyw ddarpariaethau gweinyddol ac

archwilio. Felly, nid yw'n briodol i'r Bwrdd roi cyfarwyddyd ynghylch sut y dylai'r Swyddog Cyfrifyddu gyflawni ei swyddogaethau nac fel arall.

Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd ddiwygio'r diben arfaethedig gwreiddiol i'w gynnwys yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd (mae ychwanegiadau/diwygiadau a wnaed ar ôl yr ymgynghoriad wedi'u tanlinellu neu mae llinell wedi'i rhoi drwyddynt):

Mae Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn rhoi adnoddau i Grwpiau fel y'u diffinnir yn y Rheolau Sefydlog ddarparu gweinyddiaeth a chydgyssylltu canolog, cymorth ar gyfer gwaith craffu, ymchwil a ~~llunio~~ datblygu polisiâu sy'n ymwneud â dyletswyddau'r Aelodau, cymorth cyfathrebu, cymorth bugeiliol a llesiant, offer a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â staffio, gwasanaethau a gomisiynir yn allanol, yn ogystal â gweithredu swyddfa grŵp.

Cynnig Tri:

Ni fydd unrhyw gwantwm penodol ar gyfer cyfanswm Cymorth i Grwpiau'r Senedd.

Y cefndir

121. Ar hyn o bryd, mae cyllideb sefydlog ar gyfer cymorth i grwpiau gwleidyddol. Gwneir hyn er mwyn sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ac mae o gymorth i Gomisiwn y Senedd o ran cynllunio ariannol gan ei fod yn lleihau'r posibilrwydd o anwadalrwydd yn y gyllideb.

122. Fodd bynnag, cynigiodd y Bwrdd y dylid cael gwared ar y terfyn ar y gronfa hon mewn ymateb i'r adborth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad o'r cyllid hwn. Clywodd y Bwrdd fod rhannu cyllideb sefydlog rhwng grwpiau'n golygu y gall grwpiau gael llai o gyllid yn ystod tymor oherwydd newidiadau mewn grŵp arall.

Crynodeb o'r ymatebion

123. Roedd cefnogaeth at ei gilydd i'r cynnig hwn. Er enghraifft, nododd grŵp Llafur Cymru y byddai'n ffordd decach, fwy cyson a thryloyw o bennu cyllid i grwpiau na'r model presennol sy'n seiliedig ar gwantwm.

124. Ond dywedodd y Comisiwn y byddai'n anodd iddo gyllidebu heb gwantwm penodol ac roedd am i'r gwaith modelu a'r tybiaethau gael eu rhannu er mwyn helpu i gynllunio'r gyllideb.

125. Roedd grŵp Plaid Cymru yn gefnogol, ond yn dadlau y dylai grwpiau gael eu diogelu er mwyn sicrhau '*...nad yw Grwpiau'n cael eu heffeithio'n ariannol pe bai gostyngiad yn nifer Aelodau eu Grŵp yng nghanol tymor Senedd.*'

Trafod yr ymatebion

126. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion at ei gilydd.

127. Lluniwyd dull gweithredu arfaethedig y Bwrdd er mwyn rhoi eglurder ynghylch dyraniadau i grwpiau ac er mwyn diogelu grwpiau'n well rhag effaith bosibl newidiadau i grwpiau eraill.

128. Cafodd y mater a godwyd gan y Comisiwn ynghylch yr heriau sydd ynghlwm wrth wneud tybiaethau cyllidebol ar gyfer cymorth i grwpiau cyn tymor y Seithfed Senedd ei drafod wedi hynny gan y Cadeirydd, y Llywydd a'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am y gyllideb a llywodraethiant yng nghyfarfod y Bwrdd/y Comisiwn ar 20 Ionawr; rhoddodd y Cadeirydd a'r Swyddog Cyfrifyddu sicrwydd bod modd rheoli'r broses o bennu'r gyllideb drwy fodelu gwahanol senarios, a bydd y Bwrdd yn rhannu ei dybiaethau o ran cynllunio senarios â'r Comisiwn.

Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd beidio â phennu cwantwm ar gyfer cyfanswm Cymorth i Grwpiau'r Senedd.

Cynnig Pedwar:

Bydd cymorth yn parhau i gael ei ddarparu i bob grŵp, gyda chyfran uwch o gymorth yn cael ei ddarparu i Grwpiau anllywodraethol.

Y cefndir

129. Mae'r dull presennol yn darparu cymorth i bob grŵp, gan gynnwys y rhai a gynrychiolir yn y Llywodraeth, sy'n cael dyraniad llai wedi'i gapio er mwyn sicrhau bod cyfran uwch o gymorth yn cael ei ddarparu i grwpiau anllywodraethol.

130. Nododd y Bwrdd fod grŵp y Llywodraeth yn gallu manteisio ar adnoddau sylweddol y gwasanaeth sifil a chynghorwyr arbennig er mwyn datblygu polisïau. Nodwyd hefyd nad yw 'Arian Short' yn Senedd yr Alban a Senedd y DU yn cael ei ddarparu i grwpiau a gynrychiolir yn

y llywodraeth. Nid yw'n anghyffredin mewn gwledydd eraill, fodd bynnag, i grwpiau a gynrychiolir yn y llywodraeth gael cyllid, er bod hynny ar lefel is na grwpiau anllywodraethol.

131. Clywodd y Bwrdd hefyd farn fod grŵp y Llywodraeth yn cynnwys nifer sylweddol o aelodau 'meinciau cefn' sy'n cymryd rhan mewn gwaith craffu ac sydd angen y cymorth ar y cyd y mae'r cyllid hwn yn ei ddarparu, megis gweinyddiaeth ganolog, cyfathrebu a chymorth bugeiliol.

132. Felly, cynigiodd y Bwrdd y dylid parhau â model o gymorth a ddarperir i bob grŵp, gyda chyfran uwch o gymorth yn cael ei ddarparu i grwpiau anllywodraethol.

Crynodeb o'r ymatebion

133. Roedd ymatebion pob un o'r grwpiau'n cefnogi'r cynnig hwn at ei gilydd.

134. Fodd bynnag, mynegodd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig bryder y byddai grŵp y Llywodraeth ar hyn o bryd, o dan y trefniadau arfaethedig, yn cael cyfran uwch o'r cyllid cyffredinol sydd ar gael nag sy'n digwydd nawr, gan nodi cynnydd o 2.24% ar gyfer grŵp y Llywodraeth ar hyn o bryd a gostyngiad o 0.19% ar gyfer y grŵp anllywodraethol mwyaf ar hyn o bryd.

Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd barhau i ddarparu cymorth i bob grŵp yn y Seithfed Senedd, gyda chyfran uwch o gymorth yn cael ei ddarparu i grwpiau anllywodraethol.

Cynnig Pump:

Bydd Cymorth i Grwpiau yn y Seithfed Senedd yn cael ei ddsbarthu drwy gyfradd Haenog fesul Aelod, wedi'i lleihau gyda maint Grŵp. Bydd grwpiau'r Llywodraeth yn cael cyfradd is fesul Aelod.

Y cefndir

135. Bwriad y Bwrdd yw y bydd model ariannu grwpiau'r Senedd yn y Seithfed Senedd yn cyflawni egwyddorion craidd y Bwrdd ar gyfer cymorth i grwpiau'r Senedd, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori.⁶

136. Mae'r Bwrdd wedi archwilio sawl model ar gyfer cymorth i grwpiau, a gafodd eu profi yn erbyn nifer o senarios er mwyn ystyried pa gyfran o'r cyllid fyddai'n cael ei darparu i Grŵp neu Grwpiau'r Llywodraeth, Grwpiau anllywodraethol, a lefel y cymorth y byddai'r Grwpiau lleiaf yn ei chael, yn ogystal ag effaith llywodraethau clymblaid. Ystyriwyd hefyd wrth eu profi sut y byddai anwadalrwydd canol tymor o ran aelodaeth Grŵp yn effeithio ar Grwpiau ac ar gyllideb y Penderfyniad yn gyffredinol.

137. Cynigiodd y Bwrdd y dylid cyflwyno model ariannu yn seiliedig ar gyfraddau fesul Aelod, gyda chyfradd 'graidd' fesul Aelod Grŵp Anllywodraethol yn £55,000 fesul Aelod (gyda gostyngiadau fel y nodir isod wedi'u cymhwyso fesul haen neu ar gyfer Grwpiau'r Llywodraeth):

Nifer yr Aelodau	Cyfradd fesul Aelod Grŵp Anllywodraethol	Cyfradd fesul Aelod Grŵp y Llywodraeth (gostyngiad o 75% o gymharu â Grwpiau Anllywodraethol)
Hyd at 5	100%	25%
6 i 39	50%	12.5%
40+	25%	6.25%

138. Y model hwn oedd yr un mwyaf clir, syml a thryloyw a ystyriwyd gan y Bwrdd, a dyma'r model sy'n rhoi'r eglurder mwyaf ynghylch lefel y cyllid a fyddai'n cael ei ddarparu i bob Grŵp yn dilyn etholiad neu yn dilyn unrhyw newidiadau yng nghanol y tymor. Byddai'r model hwn yn caniatáu i bleidiau fodelu dyraniad cyllidebol posibl yn seiliedig ar eu perfformiad etholiadol eu

⁶ Paragraff 108, <https://busnes.senedd.cymru/documents/s154677/Ymgynghoriad%20Rhan%20Un.pdf>

hunain neu drefniadaeth y grŵp, ac ni fyddai perfformiad neu ddisgyblaeth grwpiau gwleidyddol eraill yn effeithio arno.

Crynodeb o'r ymatebion

139. Roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau gwleidyddol yn cefnogi'r cynnig hwn at ei gilydd.

140. Er hynny, dywedodd grŵp Llafur Cymru:

'...we would not support any further reductions to the proposed rates outlined in ... any decrease in funding levels below the proposed 75% reduction for government groups would unfairly discriminate against these groups and make it impossible to recruit enough group staff to support their Members with all of the collective functions identified by the board.'

141. Ategodd grŵp Plaid Cymru ei bwynt blaenorol ynghylch sicrhau nad oes effaith ar gyllid grŵp os bydd gostyngiad yn nifer Aelodau'r grŵp yn ystod tymor, gan nodi:

'Mae'n bwysig bod y Penderfyniad yn caniatáu i Grwpiau allu, er enghraifft, amddiffyn rolau staff sydd wedi bod mewn perygl o gael eu diswyddo yn y gorffennol yn dilyn camau disgyblu gan y Grŵp i ddiswyddo Aelodau, neu benderfyniadau a wneir gan Aelodau i adael y Grŵp a ffurfio Grwpio gwleidyddol newydd.'

142. At hynny, dywedodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (y mae ei aelodau'n cynnwys rhai aelodau o staff cymorth):

'As much as possible if there is a change in a Senedd groups due to a death, defection, resignation, suspension or expulsion there has to be relevant support for those that work for that particular member, including emotional support.'

143. Dywedodd y Comisiwn, 'Byddai sefydlogrwydd gwell y model arfaethedig yn cynnig mwy o sefydlogrwydd at ddibenion cyllidebu.'

144. Grwpiau Llafur Cymru a Phlaid Cymru oedd yr unig ymatebwyr a wnaeth sylwadau ynghylch y cwestiwn ar yr effaith ar bartneriaid clymbleidiau. Dywedodd grŵp Llafur Cymru:

'We believe that the overall approach proposed by the Board addresses the needs of all groups, with the proviso that government groups are likely to

face increased workload pressures within small teams and the arrangements should therefore be reviewed early in the Seventh Senedd.'

145. Dywedodd grŵp Plaid Cymru:

'Credwn y dylid osgoi polisi cyffredinol gan na fyddai'n deg nac yn gymesur ar grŵp gwleidyddol y blaid llai. Yn hytrach, dylai'r cymorth sydd ar gael i grwpiau gwleidyddol gael ei bennu gan faint cymharol y pleidiau sy'n ffurfio trefniant clymblaid mewn llywodraeth – oherwydd bydd y nifer hwnnw'n effeithio ar faint o gymorth ac adnoddau gan y Llywodraeth fydd ar gael iddynt.'

Trafod yr ymatebion

146. Nododd y Bwrdd y gefnogaeth i'r model ariannu hwn ymhlith y rhan fwyaf o'r grwpiau gwleidyddol a Chomisiwn y Senedd.

147. O ystyried y gefnogaeth, mae'r Bwrdd yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig fel sail i'r fformiwla ddsbarthu ar gyfer cymorth i grwpiau yn y Seithfed Senedd.

148. Roedd y papur ymgynghori yn cynnwys symiau enghreifftiol o gyllid fesul Aelod fesul grŵp, gan nodi bod y Bwrdd yn cynnal adolygiad o'r fframwaith cyflogau a graddfeydd ar gyfer staff grŵp a staff cymorth. Felly, bydd y Bwrdd yn ystyried ac yn pennu'n derfynol y symiau arfaethedig o gyllid fesul Aelod fesul grŵp yn dilyn yr ymgynghoriad Rhan Dau a'i benderfyniadau terfynol yn yr haf ar y fframwaith cyflogau a graddfeydd staff.

149. Nododd y Bwrdd yr adborth ar y goblygiadau i bartneriaid clymbleidiol posibl yn y Seithfed Senedd. Bydd y Bwrdd yn ystyried goblygiadau'r dosbarthiad arfaethedig ymhellach yn dilyn yr adolygiad uchod o gyflogau a graddfeydd staff a chasgliad adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r Rheolau Sefydlog ynghylch maint grwpiau.

Canlyniad

Mae'n fwriad gan y Bwrdd gyflwyno fformiwla ddsbarthu drwy gyfradd Haenog fesul Aelod fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori (ac fel y nodir ym mharagraff 138 uchod), wedi'i lleihau yn ôl maint y Grŵp. Bydd grwpiau'r Llywodraeth yn cael cyfradd is fesul Aelod.

Bydd y Bwrdd yn pennu'n derfynol y symiau arfaethedig o gyllid fesul Aelod fesul grŵp a'r goblygiadau i grwpiau mewn llywodraeth glymblaid yn dilyn ymgynghoriad Rhan Dau a'i benderfyniadau terfynol yn yr haf ar y fframwaith cyflogau a graddfeydd staff.

Bydd y Bwrdd yn ystyried goblygiadau'r dosbarthiad arfaethedig ymhellach yn dilyn yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd staff a chasgliad adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r Rheolau Sefydlog ynghylch maint grwpiau.

Atodiad 1: Y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Douglas Bain, Comisiynydd Safonau'r Senedd

Yr Athro Laura McAllister

Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig

Grŵp Llafur Cymru

Grŵp Plaid Cymru

Jane Dodds AS, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Senedd

Hefin David AS, Comisiynydd y Senedd

Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (sy'n cynrychioli rhai aelodau o staff cymorth yr Aelodau)

Unigolyn (staff cymorth)

Atodiad 2: Ffiniau etholaethol terfynol y Seithfed Senedd

Cyhoeddwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar 11 Mawrth 2025.

